

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Heol y Parc a Hereford Road, Y
Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd
Cerbydau a Cherddwyr Dros Dro)
2018

The A40 Trunk Road (Park Road
and Hereford Road, Abergavenny,
Monmouthshire) (Temporary
Prohibition of Vehicles &
Pedestrians) Order 2018

Gwnaed 5 Chwefror 2018

Made 5 February 2018

Yn dod i rym 12 Chwefror 2018

Coming into force 12 February 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, being the traffic authority for the A40 Raglan to Llandoverly Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Heol y Parc a Hereford Road, Y Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau a Cherddwyr Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 12 Chwefror 2018.

1. The title of this Order is The A40 Trunk Road (Park Road and Hereford Road, Abergavenny, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles & Pedestrians) Order 2018 and it comes into force on 12 February 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services and in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 12 Chwefror 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro a gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r darn o Gefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri a’r troetffyrdd a ganlyn:

- i. Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 15 metr i’r dwyrain o ganolbwynt cyffordd Park Avenue a Heol y Parc hyd at bwynt 145 o fetrau i’r de o ganolbwynt cyffordd Hereford Road a Heol y Parc;
- ii. Y darn o’r droetffordd ar ochr ogleddol y gefnffordd o’r enw Heol y Parc sy’n ymestyn o bwynt 5 metr i’r dwyrain o ganolbwynt y fynedfa i Barc Bailey hyd at ei chyffordd â Hereford Road i gyfeiriad y dwyrain; a
- iii. Y darn o’r droetffordd ar ochr orllewinol y gefnffordd o’r enw Hereford Road sy’n ymestyn o’i chyffordd â Heol y Parc hyd at ei chyffordd â Stryd y Llew i gyfeiriad y de.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o’r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r droetffordd.

Cymhwyso

5. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

5 Chwefror 2018

Nina Ley
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the length of the A40 Raglan to Llandovery Trunk Road and footways as follows:

- i. The length of the trunk road that extends from a point 15 metres east of the centre point of the junction of Park Avenue and Park Road to a point 145 metres south of the centre point of the junction of Hereford Road and Park Road;
- ii. The length of the footway on the northern side of the trunk road known as Park Road that extends from a point 5 metres east of the centre point of Bailey Park entrance to its junction with Hereford Road in an easterly direction; and
- iii. The length of the footway on the western side of the trunk road known as Hereford Road that extends from its junction with Park Road to its junction with Lion Street in a southerly direction.

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 12 February 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, to proceed on the length of the trunk road.

4. No person may, during the works period, proceed along the lengths of the footway.

Application

5. The prohibitions of article 3 and 4 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

6. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

5 February 2018

Nina Ley
Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (HEOL Y PARC A HEREFORD ROAD, Y FENNI, SIR FYNWY) (GWAHARDD CERBYDAU A CHERDDWYR DROS DRO) 2018

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn am fod gwaith yn cael ei wneud ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, yn Heol y Parc a Hereford Road, Y Fenni, Sir Fynwy.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn gweithredu'n ysbeidiol rhwng 12 Chwefror 2018 hyd 22 Chwefror 2018 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

- i. gwahardd pob cerbyd rhag mynd ar hyd y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 15 metr i'r dwyrain o ganolbwynt cyffordd Park Avenue a Heol y Parc hyd at bwynt 145 o fetrau i'r de o ganolbwynt cyffordd Hereford Road a Heol y Parc.

Y llwybr arall ar gyfer Traffig Lleol sy'n dymuno cyrraedd man i'r gorllewin o'r darn a fydd ar gau fydd mynd tua'r de i Gyfnewidfa Hardwick ac ymuno â'r A465 tua'r gorllewin yna cymryd yr allanfa gyntaf yng Nghyfnewidfa Llan-ffwyst er mwyn ymuno â'r A4143 tua'r gogledd hyd Gylchfan Brecon Road yna dilyn yr A40 tua'r dwyrain i Heol y Parc. Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n dymuno cyrraedd man i'r dwyrain o'r darn a fydd ar gau fydd i'r gwrthwyneb.

Y llwybr arall ar gyfer Traffig Trwodd sy'n dymuno cyrraedd man i'r gorllewin o'r darn a fydd ar gau fydd dilyn y gwyriad yng Nghyfnewidfa Hardwick er mwyn dilyn y llwybr arall uchod.

Y llwybr arall ar gyfer Traffig Trwodd sy'n dymuno cyrraedd man i'r dwyrain o'r darn a fydd ar gau fydd dilyn y gwyriad yng Nghylchfan Brecon Road er mwyn ymuno â'r A4143 tua'r de ac ymuno â'r A465 tua'r dwyrain.

Gellir cael mynediad i eiddo lleol ar hyd yr A40 rhwng Cyfnewidfa Hardwick a Chylchfan Brecon Road hyd at y manau cau.

- ii. cau'r darn o'r droetffordd ar ochr ogleddol y

THE A40 TRUNK ROAD (PARK ROAD AND HEREFORD ROAD, ABERGAVENNY, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES AND PEDESTRIANS) ORDER 2018

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 Trunk Road at Park Road and Hereford Road, Abergavenny, Monmouthshire.

It is expected that the temporary prohibitions, which will be signed accordingly will operate intermittently from 12 February 2018 until 22 February 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the Order is to temporarily:

- i. prohibit all vehicles from proceeding along the length of the trunk road that extends from a point 15 metres east of the centre point of the junction of Park Avenue and Park Road to a point 145 metres south of the centre point of the junction of Hereford Road and Park Road.

The alternative route for Local Traffic wishing to access west of the closure should proceed southbound to Hardwick Interchange and join the A465 westbound then take the first exit at Llanfoist Interchange to join the A4143 northbound to Brecon Road Roundabout then follow the A40 eastbound to Park Road. The alternative route for traffic wishing to access east of the closure will be vice versa.

The alternative route for Through Traffic wishing to access west of the closure will be diverted at Hardwick Interchange to follow the alternative route above.

The alternative route for Through Traffic wishing to access east of the closure will be diverted at Brecon Road Roundabout to join the A4143 southbound and join the A465 eastbound.

Access to local premises will be available along the A40 between Hardwick Interchange and Brecon Road Roundabout up to the points of closure.

- ii. close the length of the footway on the northern side of the trunk road known as

gefnffordd o'r enw Heol y Parc sy'n ymestyn o bwynt 5 metr i'r dwyrain o ganolbwynt y fynedfa i Barc Bailey hyd at ei chyffordd â Hereford Road i gyfeiriad y dwyrain.

Y llwybr arall ar gyfer y rhai y bydd cau'r droetffordd ogleddol yn effeithio arnynt fydd dilyn y llwybr dros dro drwy Barc Bailey i Hereford Road.

- iii. cau'r darn o'r droetffordd ar ochr orllewinol y gefnffordd o'r enw Hereford Road sy'n ymestyn o'i chyffordd â Heol y Parc hyd at ei chyffordd â Stryd y Llew i gyfeiriad y de.

Y llwybr arall ar gyfer y rhai y bydd cau'r droetffordd orllewinol yn effeithio arnynt fydd dilyn y llwybr dwyreiniol ar Hereford Road, a bydd llwybr dros dro yn cael ei ddarparu hefyd er mwyn rhoi mynediad i eiddo i'r gorllewin o Heol y Parc.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Dros Dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymnion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

Park Road that extends from a point 5 metres east of the centre-point of Bailey Park entrance to its junction with Hereford Road in an easterly direction.

The alternative route for those affected by the northern footway closure will be to follow the temporary route through Bailey Park to Hereford Road.

- iii. close the length of the footway on the western side of the trunk road known as Hereford Road that extends from its junction with Park Road to its junction with Lion Street in a southerly direction.

The alternative route for those affected by the western footway closure will be via the eastern footway on Hereford Road and a temporary route will also be provided giving access to the properties to the west of Park Road.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government